

❖ GWEDDI DROS SBRI-YFWYR Y NADOLIG

Arglwydd pob tosturi,
 wrth i ni weddiö dros yr holl ddynoliaeth y Nadolig hwn,
 boed i ni weddiö dros y rhai sy'n wynebu salwch ac angen cefnogaeth,
 gan gynnwys y rhai sy'n gaeth i alcohol a chyffuriau eraill.
 Yn enwedig felly, gweddiwn dros y rhai sy'n goryfed heb ots am y canlyniadau.
 Arglwydd, rwyt ti'n gweld dyfnderoedd eu hangen,
 a gofynnwn i ti ymestyn i ganol eu dryswch a'u hunigrwydd,
 i'w hofn a'u gwacter,
 i'w dioddefaint a'u digalondid,
 a llenwi'r bwch yn eu bywydau.
**Arglwydd, clyw ein gweddi,
 a rhyddha hwy o gyffion eu caethiwed.**

Arglwydd pob deall,
 wrth i ni weddiö dros rai sy'n gaeth i alcohol a chyffuriau
 y mae eu hymddygiad a'u gwerthoedd yn newid mor syfrdanol,
 gweddiwn arnat i wella briwiau eu corff a'u meddwl a'u hysbryd,
 ac i'w dwyn i adnabod cyffyrddiad adferol Crist.
 Cynorthwya nhw i adnabod ei bresenoldeb a chlywed ei lais,
 fel y bydd dy gwmni'n gefn iddynt yn eu gofid
 ac yn eu cymell at fywyd gwell.
 Dduw Dad, maddau i'r rhai o fewn yr eglwysi a thu allan
 am fethu cydnabod difrifoldeb y clefyd hwn,
 ac am unrhyw droi cefn hunangyfiawn.
**Arglwydd, clyw ein gweddi,
 a rhyddha hwy o gyffion eu caethiwed.**

Arglwydd y cymod,
 gweddiwn dros deulu a ffrindiau pob adyn caeth,
 y cânt fodd i weld eu câr colledig mewn golau newydd.
 Bendithia hwy, Arglwydd, ag ewyllys i oresgyn stormydd eu perthynas
 â'r rhai a brofant fall alcohol a chyffuriau
 ac i bwyso eto ar nerth teulu a chymdeithas
 gyda gobaith Crist yn eu calonnau.
 Gweddiwn y cânt hwy a'u câr lawenydd y Nadolig hwn yng nghwmni ei gilydd,
 heb ddibyniaeth ar alcohol neu gyffur,
 ac y gallant edrych ymlaen at flwyddyn newydd yn llawn cytgordd a hapusrwydd.
**Arglwydd, clyw ein gweddi,
 a rhyddha hwy o gyffion eu caethiwed.**

Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill